

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 8 Ebrill 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams

Ymddiheuriadau John Griffith, Peredur Hughes, Iona Phillips, Ifan P Rowlands

1 Cofnodion cyfarfod Mawrth 2014

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Mawrth 2014 gyda Mr Trefor Jones yn cynnig a Mr John Trefor Rowlands yn eilio.

2 Cynllunio

- 2.1 47C52G Cais llawn i ymestyn y safle datblygu i gynnwys ffordd mynediad mewnol newydd ar y safle ynghyd ag ail alinio ffens diogelwch y safle ar dir i'r gogledd ddwyrain o / Full application to extend the development site to include a new internal site access road together with the realignment of the site security fence at land to the North East of : *Alaw Water Treatment Works, Llantrisant*

Dim gwrthwynebiad i'r cais ond wrth ymateb gofyn bod cymal yn cael ei gynnwys o fewn y caniatâd cynllunio bod y cwmni nail ai'n darparu ariannu neu yn gwneud gwaith atgyweirio i'r ffyrdd lleol. Mae difrod sylweddol yn cael ei achosi i'r seilwaith lleol oherwydd y cynnydd enfawr mewn lorïau ayyb sy'n defnyddio'r ffyrdd bach.

- 2.2 47C102A * Cais llawn i godi sied amathyddol ar gyfer cadw anifeiliad yn / Full application for the erection of an agricultural shed to keep livestock at : *Clwchdernog Bach, Llanddeusant* *

Roedd y Clerc wedi derbyn penderfyniad caniatâu cynllunio ar gyfer y cais yma oddi wrth CSYM ond nad oedd wedi derbyn y cais wreithiol cyn iddi ebostio'n holi amdano.

3 Materion a codwyd yn ystod y cyfarfod

3.1 Addysg plant Llanddeusant a'r cylch

Roedd rhai o'r cynghorwyr wedi deall y bod cyfarfod yn cael ei chynnal yn Ysgol Ffrwd Win i drafod dyfodol Ysgol Cylch a'n debyg dyna le bu Cynghorwyr Talybolion. Roedd consyrn nad oedd rhieni plant ardal Llanddeusant yn cael eu cysylltu ynglŷn â'r mater pwysig yma. Mae'n debyg y bod Ysgol Bodedern yn llawn ac mae'r rhieni'n bryderus i ba ysgol bu plant nhw'n mynd yn y dyfodol.

3.2 Hen Ysgol Llanddeusant/Neuadd Bentref

Trafododd y Cyngor yr safle'r Hen Ysgol a'r Neuadd Bentref. Gall adeilad Yr Hen Ysgol fod yn fwy hyblyg na'r Neuadd y Pentref, ond ni allai'r gymuned gynnal dau adeilad o'r fath. Er nad yw ar hyn o bryd mewn sefyllfa i gynnig awgrym o'r fath yn ffurfiol, meddwl tybed a gall y Cyngor Sir ystyried cyfnewid eu perchnogaeth o'r Hen Ysgol gyda Neuadd y Pentref? Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn i'r Cynghorwyr Talybolion a allent o bosibl yn gwneud ymholiadau synhwyrol ar ran Tref Alaw cyn ei bod yn rhy hwyr ac mae'r Hen Ysgol yn cael ei werthu.

Taliadau Clerc (gan cynwys costau) £2,000
Arian i mewn

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Cyfarfod ar frys o'r Cyngor Nos Fawrth, 27 Mai 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, Peredur Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Ffion Roberts, Ifan P Rowlands, John T Rowlands, Hugh Williams

Ymddiheuriadau John Griffith, Iona Phillips

1 Cofnodion cyfarfod Ebrill 2014

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Ebrill 2014 gyda Mr Hugh Williams yn cynnig a Mr Glyn Hughes yn eilio.

Nid oedd wedi bod yn bosib cynnal cyfarfod arferol am fod adran Addysg Cyngor Sir Ynys Môn wedi trefnu cyfarfod gyda rhieni Llanddeusant a Llantrisant ynglŷn âg ysgol newydd Y Llannau.

2 Archwilio Cyfrifon 2012-13

Roedd cyfrifon 2012-13 wedi eu pasio gan yr Archwiliwr Mewnol ag angen eu gyrru ymlaen at yr Archwiliwr cyn diwedd y mis. Cytunwyd y cyfrifon fel y tablwyd.

3 Insiwrans 2013-14

Bu rhaid aros gyda insiwrans Zurich am flwyddyn arall gyda'r cytundeb sydd mewn lle. Cytunwyd talu'r swm o £355.80 erbyn 1 Mehefin.